Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dod yn Aelod o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (MCIPS) Canllaw i Ddysgwyr

Caffael a Masnachol



Hydref 2026

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Prentisiaethau Caffael a Chyflenwi Masnachol (Cymru)	3
Cymwysterau Proffesiynol y CIPS	6
Dyfarniad Corfforaethol y CIPS – Rhaglen Dysgu Cymhwysol	9
Rhaglenni Gradd Achrededig y CIPS	11
Llwybr Mynediad i Reoli y CIPS	12

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55081, ISBN argraffu 978-1-80853-673-1, ISBN digidol 978-1-80853-675-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



Galluogrwydd

Cyflwyniad

Mae'r proffesiwn caffael yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, cynaliadwy a masnachol effeithiol ledled Cymru. Mae gweithwyr proffesiynol caffael yn gyfrifol am sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ar nwyddau, gwasanaethau a gweithiau trwy osod blaenoriaethau cyrchu strategol a rheoli marchnadoedd, er mwyn sicrhau gwerth am arian, ymgorffori gwerth cymdeithasol a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi a deddfwriaeth caffael. Mae gallu proffesiynol cryf ym maes caffael yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru a chyflawni'r canlyniadau a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS).

Wrth i'r proffesiwn ddatblygu, felly hefyd y mae'r angen am lwybrau clir, hygyrch. Mae'r llwybrau hyn yn cefnogi unigolion ar bob cam o'u gyrfa i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau caffael a masnachol a chael cydnabyddiaeth broffesiynol. Arwydd allweddol o gymhwysedd proffesiynol ym maes caffael yw MCIPS llawn, sef Aelodaeth o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS). Mae MCIPS yn achrediad proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n dangos bod unigolyn yn bodloni'r safonau gofynnol o wybodaeth, profiad ac ymddygiad proffesiynol parhaus a ddisgwylir gan ymarferydd caffael cymwysedig.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amrywiaeth o lwybrau sydd ar gael yng Nghymru i gyflawni MCIPS, gan gefnogi Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) ac uchelgeisiau ehangach ar gyfer gweithlu caffael galluog a gwydn. Mae'n dwyn ynghyd llwybrau prentisiaeth, rhaglenni datblygiad proffesiynol, llwybrau asesu seiliedig ar waith ac opsiynau addysg uwch mewn un lle.

Dewis y llwybr priodol

P'un a ydych chi'n dechrau eich taith gaffael, yn adeiladu ar eich profiad presennol, neu'n datblygu eich statws MCIPS proffesiynol, mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i nodi'r llwybr sy'n cyd-fynd orau â'ch profiad presennol a'ch nodau gyrfa at y dyfodol.

Mae'r llwybrau a gyflwynir yn y canllaw yn cynnwys:

- Prentisiaethau Caffael a Chyflenwi Masnachol (Cymru)
- Cymwysterau Proffesiynol y CIPS
- Rhaglen Dysgu Cymhwysol Dyfarniad Corfforaethol y CIPS
- Rhaglenni Gradd Achrededig y CIPS
- Llwybr Mynediad i Reoli y CIPS.

Mae'r canllaw wedi'i ddatblygu i argymell addasrwydd pob llwybr yn unol â chyd-destun unigol y dysgwr. Pan fo'n briodol, dylid ystyried hyn mewn trafodaeth â'ch rheolwr llinell, ochr yn ochr â'ch amgylchiadau gwaith a phersonol, hanes gyrfa ac addysg, ac arddull dysgu.

Dylid hefyd ystyried lefel y cymhwyster. Mae'r holl gymwysterau wedi'u cynllunio i gefnogi mynediad, lefel 1, i lefel 8, doethurol. Bydd y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCChC) (gweler diagram gwyntyll FfCChC 2024) yn cefnogi eich penderfyniadau.


Galluogrwydd

CREDIT & QUALIFICATIONS FRAMEWORK FOR WALES
FFRAMWAITH CREDYDAU A CHYMWYSTERAU CYMRU

Diagram Gwyntyll FfCChC 2024

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn fframwaith dysgu cynhwysol. Mae'r Lefelau'n cynnwys yr holl ddysgu o'r camau cychwynnol cyntaf (Mynediad, 1, 2, 3) hyd at y lefel uchaf (lefel 8).

Mae'r diagram Gwyntyll yn dangos lefelau ac enghreifftiau o'r cymwysterau a'r ddarpariaeth ddysgu sy'n cael eu cynnwys ynddo.



• Mae achediad lefel cyn-mynediad yn cael ei ddarparu mewn ysgolion, sefydliadau AB ac o fewn dysgu gydol oes. Caiff y lefel ei gwahaniaethu ymhellach er mwyn darparu llwybr cynnydd i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

• Pan fo darpariaeth lefel 3 wedi'i hintegreiddio i ddarpariaeth AU, e.e. cwrs gradd gyda blwyddyn sylfaen integredig, yna ystyrir bod myfyriwr yn astudio ar gyfer cymhwyster AU ym mhob blwyddyn o'r cwrs hwnnw.

Rhagor o fanylion: Ewch i **llyw.cymru/ffcchc** neu e-bostiwch **CQFW.Enquiries@llyw.cymru**

Galluogrwydd

Y Brentisiaeth Caffael, Cyflewni a Masnachol (Cymru)

Mae'r Brentisiaeth Caffael, a Chyflenwi Masnachol yn llwybr datblygu seiliedig ar waith sydd wedi'i gynllunio i feithrin gallu caffael proffesiynol tra bod unigolion yn cael eu cyflogi mewn rôl caffael neu fasnachol. Mae'n cyfuno profiad ymarferol yn y swydd â dysgu strwythuredig sy'n cyd-fynd â safonau'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS), gan alluogi prentisiaid i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan weithiwr proffesiynol caffael modern. In line with the apprenticeship standards for Wales, apprentices must demonstrate both the knowledge and competence required for their role. This apprenticeship achieves this through the successful completion of two qualifications.

Mae'r brentisiaeth yn darparu llwybr cydnabyddedig ar gyfer cymwysterau'r CIPS a gall gefnogi cynnydd tuag at MCIPS, yn dibynnu ar y lefel a ymgymerir a phrofiad blaenorol yr unigolyn. Mae'n ymdrin â meysydd craidd fel ymgysylltu â rhanddeiliaid, strategaeth gaffael, cyrchu a rheoli contractau, caffael moesegol, ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae'r brentisiaeth ar gael ar hyn o bryd ar y ddwy lefel a amlinellwyd. Gall unigolion symud ymlaen y tu hwnt i'r lefelau hyn trwy ystod o lwybrau amgen i MCIPS.

Llwybr Astudio	Lefel 3	Lefel 4
Hyd yr Astudio Rhaid i gyfranogwyr gyflawni'r ddau gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth	**Amcangyfrif o 12-18 mis.** Oriau hyfforddi – yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith (490 awr). Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.	**Amcangyfrif o 12-24 mis.** Oriau hyfforddi – yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith (930 awr). Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.
Addasrwydd	Aelodau newydd neu bresennol o'r tîm caffael. Dim, neu ychydig o brofiad busnes a/neu gaffael. Swyddi lefelau mynediad.	Aelodau newydd neu bresennol o'r tîm caffael. Rhywfaint o brofiad busnes neu gaffael blaenorol, mewn swyddi sy'n arwain rhywfaint o weithgarwch caffael neu Dim, neu ychydig o brofiad busnes a/neu gaffael gyda chymwysterau blaenorol (fel Safon Uwch neu gyfwerth).
Dull gweithredu	Dysgu cyfunol a gweithredol.	Dysgu cyfunol a gweithredol.

Galluogrwydd

Llwybr Astudio	Lefel 3	Lefel 4
Dull Asesu	Gwybodaeth – arholiad. Cymhwysedd – tystiolaeth/ portffolio.	Gwybodaeth – arholiad. Cymhwysedd – tystiolaeth/ portffolio.
Cost Fesul Llwybr	Mae cyllid Medr yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaethau Cymru.	Mae cyllid Medr yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaethau Cymru.
Darparwr Hyfforddiant	**Rhestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaethau**.	**Rhestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaethau**.
Eithriadau	Trafod gyda'r Darparwr Hyfforddiant.	Trafod gyda'r Darparwr Hyfforddiant.
Llwybr Cyllido	**Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**.	**Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**.
Cymhwysedd	Lefel 3: **Gwybodaeth** **Tystysgrif Caffael Uwch CIPS** a **Chymhwysedd** **Tystysgrif mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi (Cymru)**.	Lefel 4: **Gwybodaeth** **Diploma CIPS mewn Caffael a Chyflenwi** a **Cymhwysedd** **Tystysgrif mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi (Cymru)**.
	Mae'r cymwysterau cymhwysedd ar Lefel 3 a Lefel 4 yn gymwysterau annibynnol ychwanegol sy'n cael eu cwblhau yn ychwanegol at Dystysgrif CIPS Lefel 3 neu Ddiploma CIPS Lefel 4.	
Gofynion Mynediad	**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma**.	**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma**.
Gwybodaeth Ddefnyddiol	Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.	



Galluogrwydd

Cymwysterau Proffesiynol y CIPS

Mae Cymwysterau Proffesiynol y CIPS yn darparu llwybr strwythuredig a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer datblygu cymhwysedd a phroffesiynoldeb o fewn caffael a chyflenwi. Mae'r cymwysterau yn seiliedig ar Safon Fyd-eang y CIPS ar gyfer Caffael a Chyflenwi, gan sicrhau disgwyliadau cyson o ran gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad moesegol ar draws y proffesiwn ledled y byd.

Mae symud ymlaen trwy lefelau'r CIPS yn galluogi unigolion i feithrin arbenigedd ar draws meysydd fel strategaeth fasnachol, caffael moesegol a chynaliadwy, cyrchu, rheoli contractau ac arweinyddiaeth. Mae cwblhau'r lefelau gofynnol a'r profiad cysylltiedig yn llwyddiannus yn cefnogi cynnydd tuag at MCIPS, gan ddangos cymhwysedd proffesiynol llawn ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Llwybr Astudio	Cymwysterau Proffesiynol y CIPS
Hyd yr Astudio	Mae dysgu CIPS wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg ac yn gydnaws â gwaith. Fel arfer, disgrifir amser astudio fel oriau dysgu dan arweiniad, sef yr amser y mae dysgwr cyffredin yn ei dreulio yn ymwneud â deunyddiau dysgu, paratoi ar gyfer asesiad a chydgrynhoi. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn aml wedi'u gwasgaru dros gyfnod o 9-15 mis fesul lefel, yn dibynnu ar lefel y rhaglen CIPS, ei dwyster a'r dull astudio.
Addasrwydd	**Tystysgrif CIPS Lefel 2 mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi** · Dechreuwyr newydd i rolau caffael neu rolau cadwyn gyflenwi. · Unigolion sy'n cefnogi gweithgarwch caffael gweinyddol. · Unigolion sy'n ystyried ennill gwybodaeth sylfaen, heb unrhyw brofiad neu gymwysterau caffael blaenorol.
	Tystysgrif Uwch CIPS Lefel 3 mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi · Unigolion sy'n symud ymlaen o Lefel 2. · Unigolion â chyfrifoldeb am gefnogi gweithgarwch caffael/cwblhau tasgau caffael sylfaenol. · Unigolion sydd am adeiladu ar wybodaeth ragarweiniol am gaffael a'r gadwyn gyflenwi.
	Diploma CIPS Lefel 4 mewn Caffael a Chyflenwi · Unigolion sy'n symud ymlaen o lefel 3, neu ag addysg flaenorol neu brofiad gwaith perthnasol. · Unigolion sydd am symud ymlaen o ddealltwriaeth weithredol o gaffael i ymarfer caffael proffesiynol gyda chyfrifoldeb am weithgareddau caffael.

Galluogrwydd

Llwybr Astudio	Cymwysterau Proffesiynol y CIPS
Addasrwydd (Parhad)	**Diploma Uwch CIPS Lefel 5 mewn Caffael a Chyflenwi** · Unigolion sy'n symud ymlaen o Lefel 4. · Unigolion sydd am ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u gallu i berfformio'n effeithiol mewn ystod o rolau caffael a chyflenwi lefel uwch a mwy cymhleth. · Gweithwyr proffesiynol caffael profiadol gyda chyfrifoldeb dylanwadu.
	Diploma Proffesiynol CIPS Lefel 6 mewn Caffael a Chyflenwi · Unigolion sy'n symud ymlaen o Lefel 5. · Unigolion sy'n gweithredu ar lefel strategol o fewn caffael a chyflenwi, sydd angen gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol uwch. · Y sawl sydd am ddatblygu gallu arweinyddiaeth strategol.
Dull gweithredu	Mae modelau astudio amrywiol ar gael i weddu i anghenion y dysgwr: · Dysgu cyfunol · Dysgu o bell · Dysgu hyblyg · Dysgu llawn amser · Dysgu rhan amser.
Dull Asesu	Arholiad.
Cost fesul llwybr*	Tystysgrif CIPS Lefel 2 mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi – tua £2,100. Tystysgrif Uwch CIPS Lefel 3 mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi – tua £2,350. Diploma CIPS Lefel 4 mewn Caffael a Chyflenwi – tua £4,000. Diploma Uwch CIPS Lefel 5 mewn Caffael a Chyflenwi – tua £4,000. Diploma Proffesiynol CIPS Lefel 6 mewn Caffael a Chyflenwi – tua £4,100.
Darparwr Hyfforddiant	Dewch o hyd i ddarparwr hyfforddiant **yma**.
Eithriadau	Efallai y bydd eithriadau modiwl ar gael ar gyfer unigolion sydd â dysgu perthnasol blaenorol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma: **Eithriadau | CIPS**.



Galluogrwydd

Llwybr Astudio	Cymwysterau Proffesiynol y CIPS
Llwybr Cyllido	Ariennir gan eich hun/cyflogwr. Dylai unigolion sydd am astudio Cymhwyster Lefel 3 a Lefel 4 ystyried Prentisiaeth Caffael a Chyflenwi Masnachol Cymru. Efallai y bydd cyllid ar gyfer astudio ar gael trwy'r darparwyr hyfforddiant prentisiaethau yng Nghymru. Efallai y bydd cyllid ar gyfer Lefelau 4 a Lefel 5 ar gael trwy raglen Cyfrif Dysgu Personol Llywodraeth Cymru. Rhaid i unigolion fodloni meini prawf allweddol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth **yma**.
Cymwysterau Sydd Ar Gael	CIPS Lefel 2 – Tystysgrif mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi. CIPS Lefel 3 – Tystysgrif Uwch mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi. CIPS Lefel 4 – Diploma mewn Caffael a Chyflenwi. CIPS Lefel 5 – Diploma Uwch mewn Caffael a Chyflenwi. CIPS Lefel 6 – Diploma Proffesiynol mewn Caffael a Chyflenwi.
Gofyniad Mynediad	Cysylltwch â'r ganolfan astudio berthnasol i drafod y meini prawf mynediad.
Gwybodaeth Ddefnyddiol	**Cymwysterau Caffael | CIPS**.

* Mae ffioedd astudio yn amrywio ac yn cael eu gosod gan Ddarparwyr Hyfforddiant unigol. Mae'r prisiau a ddyfynnir yn ganllaw ac fe'u cafwyd o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn gywir ym mis Ebrill 2026.



Galluogrwydd

Dyfarniad Corfforaethol y CIPS – Rhaglen Dysgu Cymhwysol

Mae Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y CIPS yn darparu llwybr a gefnogir gan gyflogwyr i unigolion ddatblygu a dangos cymhwysedd caffael proffesiynol yn unol â Safon Fyd-eang y CIPS ar gyfer Caffael a Chyflenwi. Mae dysgwyr yn cwblhau aseiniadau ac asesiadau trwy ddefnyddio safonau proffesiynol y CIPS yn eu hamgylchedd sefydliadol a masnachol eu hunain, gan sicrhau bod dysgu yn ymarferol, yn berthnasol ac wedi'i seilio ar brofiad yn y byd go iawn.

Mae'r llwybr hwn yn galluogi unigolion i ddangos tystiolaeth o'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymarfer moesegol trwy eu defnyddio yn y gwaith, gan gefnogi cynnydd tuag at MCIPS ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llawn a bodloni gofynion cymhwysedd y CIPS ar gyfer MCIPS. Mae'r rhaglen Dyfarniad Corfforaethol yn helpu i gryfhau barn broffesiynol a gallu sy'n canolbwyntio ar fasnach sy'n drosglwyddadwy ar draws rolau, sefydliadau a sectorau. Ewch i wefan y CIPS **yma** i gael trosolwg cofnodedig o'r rhaglen a Thaflen Gynnyrch y CIPS sy'n gysylltiedig â hi.

Llwybr Astudio	Ymarferydd (Lefel 4)	Ymarferydd Uwch (Lefel 5 a 6)
Hyd yr Astudio	12 mis.	18 mis.
Addasrwydd	Unigolion sy'n chwilio am lwybr seiliedig ar waith, heb arholiad ar gyfer achrediad caffael proffesiynol, heb unrhyw gymhwyster CIPS blaenorol yn ofynnol. Nid ydynt yn gweithredu ar lefel diploma neu MCIPS eto, ond yn gweithio'n weithredol mewn rolau sy'n gysylltiedig â chaffael neu gyflenwi ac yn gallu rhoi dysgu ar waith trwy eu cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.	Ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael a chyflenwi profiadol sy'n chwilio am lwybr seiliedig ar waith, heb arholiad ar gyfer statws MCIPS llawn. Unigolion sy'n gallu dangos cymhwysedd proffesiynol cyfredol.
Dull gweithredu	Ystafell ddosbarth rithwir.	Ystafell ddosbarth rithwir.
Dull Asesu	Dysgu cymhwysol. Aseiniad.	Dysgu cymhwysol. Aseiniad gan gynnwys cyflwyniad prosiect terfynol.
Cost Fesul Llwybr	Gall cyflogwyr ddisgwyl talu rhwng £4,000 a £6,000 ynghyd â TAW yn dibynnu ar lefel y rhaglen. Cysylltwch â'r CIPS yn uniongyrchol i archwilio **yma**.	
Darparwr Hyfforddiant	CIPS.	CIPS.



Galluogrwydd

Llwybr Astudio	Ymarferydd (Lefel 4)	Ymarferydd Uwch (Lefel 5 a 6)
Eithriadau	Amh.	Mae Asesiad Cymhwysedd y CIPS yn darparu llwybr i ymarferwyr profiadol gael mynediad uniongyrchol i'r rhaglen, heb gwblhau'r lefel Ymarferydd yn gyntaf. **Rhaglen dysgu cymhwysol y CIPS**. Cysylltwch â'r CIPS am ragor o wybodaeth.
Llwybr Ariannu*	Ariennir gan eich hun/cyflogwr.	Ariennir gan eich hun/cyflogwr.
Cymhwyster**	Aelodaeth Diploma Heb Gymhwyster.	Heb Gymhwyster MCIPS.
Gofyniad Mynediad	Dim.	Rhaid meddu ar Ddiploma'r CIPS neu gofrestru trwy asesiad cymhwysedd y CIPS.
Gwybodaeth Ddefnyddiol	Gellir cael rhagor o wybodaeth **yma**.	

* Yn amodol ar gymhwysedd ac argaeledd, efallai y bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i gefnogi'r sector cyhoeddus yng **Nghymru i gyflawni Datganiad Polisi Caffael Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **GalluMasnachol@llyw.cymru**.

** Mae Llwybr Dysgu Cymhwysol Dyfarniad Corfforaethol y CIPS yn llwybr ar gyfer cyflawni MCIPS ac nid yw'n gymhwyster rheoleiddiedig. Y llwybr arholi yw'r unig ffordd o gael y cymhwyster hwn.

Rhaglenni Gradd Achrededig y CIPS

Llwybr Astudio	Rhaglenni Gradd Meistr. Rhaglenni israddedig, ôl-raddedig neu lwybr carlam
Hyd yr Astudio	Gall rhaglenni gradd amrywio rhwng blwyddyn a phedair blynedd yn dibynnu ar gynnwys lleoliad mewn diwydiant neu opsiwn carlam. Porwch ddarparwyr rhaglenni gradd achrededig y CIPS **yma**.
Addasrwydd	Myfyrwyr sy'n bwriadu dechrau gyrfa mewn caffael a chyflenwi neu'r unigolion hynny sy'n dymuno trosglwyddo i yrfa neu ddatblygu gyrfa yn y maes hwn, neu'r rhai sydd eisoes â gradd israddedig neu gymhwyster cyfatebol. Unigolion sydd â chymhwyster y CIPS (efallai y bydd Dysgu Cymhwysol y CIPS hefyd yn cael ei dderbyn ar gyfer mynediad) ac sydd â thair i bum mlynedd o brofiad perthnasol yn y diwydiant ac sydd am astudio ymhellach.
Dull gweithredu	Mae graddau achrededig y CIPS yn cael eu cyflwyno trwy brifysgolion, fel arfer trwy astudio ar y campws, gyda threfniadau cyflwyno wedi'u gosod gan y sefydliad unigol.
Dull Asesu	Gall rhaglenni gwahanol gynnig dulliau asesu amrywiol a all gynnwys gwaith cwrs, arholiadau, gwaith prosiect neu leoliadau seiliedig ar waith neu gymysgedd o dasgau unigol a grŵp neu draethawd hir.
Cost Fesul Llwybr	Bydd costau'r rhaglen yn amrywio yn dibynnu ar y radd achrededig a hyd y llwybr astudio. Gall costau nodweddiadol ar gyfer ffi llawn amser amrywio o £9,000 i £13,000 y flwyddyn*.
Darparwr/Darparwyr Hyfforddiant**	Prifysgolion Cymru gydag opsiynau gradd y CIPS. Prifysgol Caerdydd. Prifysgol De Cymru.
Eithriadau	Cysylltwch â'r brifysgol berthnasol o'ch dewis i gael rhagor o fanylion am eithriadau.
Llwybr Cyllido	Ariennir gan eich hun/cyflogwr.
Cymhwyster	BSc neu MSc.
Gofyniad Mynediad	Bydd gofynion yn amrywio yn ôl dewis gradd. Cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol am wybodaeth.
Gwybodaeth Ddefnyddiol	**www.southwales.ac.uk/cy/** **www.cardiff.ac.uk/cy/study**

* Mae costau nodweddiadol yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi.

** Efallai y bydd rhaglenni gradd amgen wedi'u hachredu gan y CIPS y tu allan i Gymru. Archwiliwch ymhellach **yma**.

Galluogrwydd

Llwybr Mynediad i Reoli y CIPS

Mae Llwybr Mynediad i Reoli y CIPS yn darparu pwynt mynediad carlam i fframwaith y CIPS ar gyfer gweithwyr proffesiynol profiadol sy'n gweithio ym maes caffael, cyflenwi, neu rôl fasnachol â chysylltiad agos. Mae'n cydnabod dysgu blaenorol a phrofiad proffesiynol, gan ganiatáu i unigolion gael mynediad at astudiaeth y CIPS ar lefel uwch heb ddilyn y dilyniant dilyniannol llawn o'r lefel mynediad. Mae'r llwybr hwn yn cefnogi cynnydd cyflymach tuag at MCIPS trwy alluogi ymarferwyr profiadol i ganolbwyntio ar ddatblygu gallu strategol, arweinyddiaeth a phroffesiynol sy'n cyd-fynd â Safon Fyd-eang y CIPS ar gyfer Caffael a Chyflenwi..

Llwybr Astudio	Llwybr Mynediad Rheolaeth drwy Brofiad
Hyd yr Astudio	Amh.
Addasrwydd	Gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad sylweddol o gaffael, masnach neu'r gadwyn gyflenwi nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol y CIPS. Unigolion sy'n gweithio ar lefel rheoli neu arweinyddiaeth o fewn caffael neu sydd am wneud hynny. Y sawl sy'n newid gyrfa ac yn dod â phrofiad masnachol neu reoli contractau trosglwyddadwy i'r proffesiwn.
Dull gweithredu	Ffurflen gais trwy wefan y CIPS. Ymgeisiwch **yma**.
Dull Asesu	Cyflwyno tystiolaeth o brofiad, prawf moeseg, asesiad ar-lein, a chyfweliad 90 munud.
Cost Fesul Llwybr	£1,000
Darparwr Hyfforddiant	Amh.
Eithriadau	Amh.
Llwybr Cyllido	Self-funded/Employer.
Cymhwyster	Amh.
Gofyniad Mynediad	Aelod cyswllt. Wedi pasio Prawf Moeseg y CIPS . O leiaf 5-10 mlynedd o brofiad strategol. Gwiriwch gymhwysedd **yma: Offeryn Cymhwystra Llwybr Mynediad i Reoli y CIPS**.
Rhagor o Wybodaeth	**Uwchraddio Aeoldaeth MER**.

Galluogrwydd

Llwybrau i MCIPS

Bandiau'r Safon Fyd-eang	Cyflawni		Rheoli	Arwain		Dylanwadu
Enghreifftiau o deitlau swyddi	*Prynwr Cynorthwyol Cynlluniwr Rhestrau Swyddog Categori Cynorthwyydd Prynu*	*Prynwr Swyddog Contractio Dadansoddwr Cadwyn Gyflenwi Swyddog Gweithredol Caffael*	*Rheolwr Categori Rheolwr Contractau Uwch Brynwr Rheolwr Caffael*	*Rheolwr Masnachol Uwch Reolwr Categori Rheolwr Cadwyn Gyflenwi Pennaeth Cyrchu*		*Pennaeth Caffael Cyfarwyddwr Caffael Cyfarwyddwr Cadwyn Gyflenwi Cyfarwyddwr Gweithrediadau*
Gofynion mynediad	Dim gofynion mynediad PWYNT MYNEDIAD	Dim gofynion mynediad PWYNT MYNEDIAD	2 Safon Uwch neu 2 flynedd o brofiad mewn rôl fusnes PWYNT MYNEDIAD UCHAF	Diploma Lefel 4 neu Ddysgu Cymhwysol ar Lefel Ymarferydd	Diploma Lefel 4 a Diploma Uwch Lefel 5*	3 blynedd o brofiad mewn swydd gyfrifol
Cymwysterau	**Lefel 2** Tystysgrif mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi	**Lefel 3** Tystysgrif Uwch mewn Gweithrediadau Caffael a Chyflenwi	**Lefel 4** Diploma mewn Caffael a Chyflenwi	**Lefel 5** Diploma Uwch mewn Caffael a Chyflenwi	**Lefel 6** Diploma Proffesiynol mewn Caffael a Chyflenwi	**MCIPS wedi'i siartredu** Mae angen 30 awr o DPP a phrawf moeseg i gynnal Statws MCIPS
Prentisiaethau Caffael		Prentisiaeth Lefel 3	Prentisiaeth Lefel 4			
Dysgu Cymhwysol (Dyfarniad Corfforaethol)			Dysgu Cymhwysol ar Lefel Ymarferydd	Dysgu Cymhwysol ar Lefel Ymarferydd Uwch		
Llwybr profiadol					Llwybr Mynediad i Reoli	
Graddau Achrededig y CIPS	Os ydych chi wedi cwblhau gradd achrededig y CIPS a bod gennych o leiaf dair blynedd o brofiad caffael, byddwch yn gallu gwneud cais i uwchraddio i MCIPS yma. Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig cwrs llwybr carlam MSc mewn Rheoli Caffael Strategol, sydd wedi'i achredu gan y CIPS. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.					
			Gradd israddedig			Gradd Meistr

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llwybrau a amlinellir yn y canllaw hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i nodi'r opsiwn mwyaf addas, cysylltwch â'r tîm Gallu Masnachol.

GalluMasnachol@llyw.cymru